

GWYBODAETH I AELODAU ETHOLEDIG

MAI 2017

Gwasanaethu cymunedau Blaenau Gwent, Caerffili,
Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen



Beth yw'r consortiwm?

Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yw'r gwasanaeth gwella ysgolion ar gyfer pum awdurdod lleol De Ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae 238 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, 15% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Yn Ionawr 2016, bu'r ysgolion hyn yn gwasanaethu 70,642 o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol, sef 19% o ddisgyblion ysgol yng Nghymru. Canran y disgyblion oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim oedd 20.1%, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol sef 18.4%.

Blaenau Gwent (27.7% Prydau Ysgol am Ddim)	
	<u>Nifer yr ysgolion</u>
Lleoliadau Nas Cynhelir	2
Cynradd	19
Uwchradd	2
Arbennig	1
Uned Cyfeirio Disgyblion	1
3-16	2

Sir Fynwy (11.4% Prydau Ysgol am Ddim)	
	<u>Nifer yr ysgolion</u>
Lleoliadau Nas Cynhelir	28
Cynradd	30
Uwchradd	4
Arbennig	1
Uned Cyfeirio Disgyblion	1

Caerffili (22.8% Prydau Ysgol am Ddim)	
	<u>Nifer yr Ysgolion</u>
Lleoliadau Nas Cynhelir	11
Babanod	6
Plant Iau	4
Cynradd	65
Uwchradd	13
Arbennig	1
Uned Cyfeirio Disgyblion	1



Torfaen (18.2% Prydau Ysgol am Ddim)	
	<u>Nifer yr Ysgolion</u>
Lleoliadau Nas Cynhelir	16
Cynradd	26
Uwchradd	6
Arbennig	1
Uned Cyfeirio Disgyblion	1

Casnewydd (19.3% Prydau Ysgol am Ddim)	
	<u>Nifer yr Ysgolion</u>
Lleoliadau Nas Cynhelir	24
Babanod	3
Plant Iau	3
Cynradd	38
Uwchradd	9
Arbennig	1
Uned Cyfeirio Disgyblion	1

Beth mae'r consortiwm yn ei wneud?

Mae'r rhanbarth yn darparu gwella ysgolion yn seiliedig ar Fodel Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol.

Sut mae'r Consortiwm yn gweithredu ac wedi'i ariannu


Prif weithgareddau'r GCA ar ran yr Awdurdodau Lleol yw:

- Darparu gwella ysgolion – cynnig cymorth a her briodol, gan gynnwys dadansoddi data, categorioiddio ysgolion, sicrhau bod cyllid grant yn cael ei defnyddio'n effeithiol
- Cynnig cymorth i ddatblygu arweinyddiaeth ysgol ar bob lefel
- Cefnogi datblygiad Llythrennedd a Rhifedd
- Cynnig her i berfformiad a darpariaeth y Cyfnod Sylfaen
- Cynnig cymorth i lwybrau dysgu priodol, ar gyfer dysgwyr o oed 14-19, gan gynnwys TGAU craidd diwygiedig, Bagloriaeth Cymru, a phrosiect 'Seren' i godi dyheadau ôl-16.
- Cefnogi strategaethau ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Galluogi amcanion Strategaeth Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru
- Cynnig gwasanaethau cyngor a hyfforddiant i Lywodraethwyr gan gynnwys anghenion hyfforddiant gorfodol
- Cynnig cymorth, cyngor a chanllawiau Adnoddau Dynol Arbenigol
- Cynnig Arlwy Dysgu Proffesiynol cynhwysfawr fel cymorth i ddatblygiad dysgu ac arweinyddiaeth

Mae manylion pellach ar y model i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/140217-national-model-for-regional-working-cy-v2.pdf>

Mae'r GCA yn gweithredu Cynllun Busnes 3-blwyddyn, sy'n cael ei diweddarau'n flynyddol, sy'n gweithio fel cynllun strategol rhanbarthol ar gyfer sbarduno deilliannau addysg dros y rhanbarth. Yn ychwanegol i'r prif Gynllun Busnes mae gan bob Awdurdod Lleol ddogfen anecs sy'n canolbwyntio ar y meysydd sydd angen eu gwella ym mhob Awdurdod Lleol. Fe ymgynghorir yn sylweddol gyda budd-ddeiliaid ar y cynlluniau ac fe gytunir arnynt ar sail flynyddol gan Gabinet bob Awdurdod Lleol.




Mae'r Cynllun Busnes a dogfennau perthnasol ar gael ar wefan y GCA. Caiff y GCA ei ariannu gan y pum. Awdurdod Lleol, ystod o rantiau gan Llywodraeth Cymru ac ychydig o wasanaethau masnachol.


Sut mae'r consortiwm yn cael ei lywodraethu ac i bwy mae'n atebol?

Sut mae'r consortiwm yn cael ei lywodraethu?

Cwmni yw'r GCA sydd wedi'i berchen gan y 5 awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn atebol i chi fel aelodau etholedig sy'n cynrychioli cymunedau ar draws y rhanbarth. Mae cofnodion Bwrdd y Cwmni, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Cyd-grŵp Gweithredol ar gael ar wefan y GCA. Mae'r Strwythur Llywodraethiant wedi'i amlygu isod.



Yn ychwanegol i'r strwythurau llywodraethiant ffurfiol mae ystod eang o rwbiau ymgynghorol, mae'r rhain wedi'u hamlygu isod:



Mae gwybodaeth bellach ar aelodaeth bresennol y Pwyllgorau Llywodraethu ar gael ar wefan y GCA.


Beth yw'r effaith hyd yn hyn?

Caiff effaith gwaith y GCA ei gofnodi'n systematig drwy adolygiadau o'r Cynllun Busnes. Mae crynodeb o'r cynnydd o fewn Deilliannau, Darpariaeth ac Arweinyddiaeth ar gael o fewn Adroddiad Hunan-Arfarnu'r GCA, mae hyn ar gael ar wefan y GCA. Mae crynodeb ar gael isod:

Cynnydd o ran Deilliannau:

- Mae deilliannau Asesiad Athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd. Er gwaethaf gwelliannau, mae deilliannau Asesiad Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn foddhaol yn unig.
- Mae tuedd o welliant dros bedair blynedd yn Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a mathemateg.
- Mae nifer yr ysgolion â llai na 40% o'u disgyblion yn cyrraedd Lefel 2+ wedi lleihau o ddeuddeg yn 2012 i un yn 2016.
- Mae perfformiad yn nhrothwy Lefel 3 yng Nghyfnod Allweddol 5 yn 2016 wedi gwella gan 2% i 97.6%.

Canlyniadau CA4 L2 gg S/C a M 2012 - 2016



Cynnydd o ran Darpariaeth:

- Mae gan y GCA amrywiaeth o weithdrefnau priodol ar gyfer monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol gyson ac sydd wedi arwain at gynnydd da ym mwyafrif yr ysgolion.
- Mae'r rhanbarth wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu mecanweithiau i hwyluso cymorth ysgol-i-ysgol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys arweinyddiaeth, addysgu, rhaglenni cymorth TGAU, Dysgu'r 21ain Ganrif, Ôl-16 ac mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cydfynd â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.

- Mae'r GCA yn cynnig cymorth cryf i weithredu mentrau LIC megis cyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.
- Mae ymgynghorwyr her yn monitro cynlluniau ysgolion ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn ofalus. Maent yn sicrhau bod y cynlluniau yn cwrdd â'r anghenion ac yn canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn dechrau gwella eu deilliannau ym mhob cyfnod allweddol.
- Mae trefniadau da i adnabod anghenion datblygu cyffredinol llywodraethwyr sy'n cael eu bodloni'n effeithiol drwy raglen hyfforddiant canolog fel arfer.

Cynnydd o ran Arweinyddiaeth:

- Mae Cynllun Busnes y GCA yn sefydlu'r weledigaeth, amcanion a blaenoriaethau strategol rhanbarthol yn briodol. Mae'n yn cydfynd yn agos â chanllawiau LIC a blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Drwy drefniadau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol mae'r GCA wedi rhannu ei amcanion a'i disgwyliadau gyda phob budd-ddeiliad.
- Mae prosesau hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dod yn fwyfwy cywir, gwerthusol a chytbwys.
- Mae arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn dda, gyda strwythur llywodraethiant a chyfathrebu clir sydd wedi'i deall ac yn gynyddol effeithiol.

Mae partneriaethau strategol ysgolion yn dda ac yn parhau i wella, gan fwyaf mae perthnasau proffesiynol gyda phenaethiaid a llywodraethwyr yn dda.

Arolwg Estyn / Swyddfa Archwilio Cymru, 'Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a gynigir gan Gonsortium y GCA' Mai 2016.

Mae crynodeb o ddeilliannau llawn yr adroddiad isod.

Adran	Gradd
Cefnogaeth ar gyfer gwella ysgolion	Da
Arweinyddiaeth	Da
Gwella ansawdd	Da
Gweithio mewn partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da

Blaenoriaethau datblygu?

Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys camau gweithredu i fodloni argymhellion arolwg Estyn / Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2016, sef:


- R1: Ystyried defnyddio ystod fwy eang o ddangosyddion perfformiad ar lefel ysgol a rhanbarthol i sicrhau bod cynnydd dysgwyr o bob math yn cael ei herio a'i gefnogi;
- R2: Gwella cysondeb o ran safon gwerthuso gweithgareddau gwella ysgolion drwy'r gwasanaeth; ac
- R3: Adnabod a rheoli risg yn fwy effeithiol.

Blaenoriaethau allweddol 2017-18 yw:

- Codi dyheadau, gwella deilliannau disgyblion a lleihau amrywiaeth dros ysgolion ac Awdurdodau Lleol, i wella ansawdd dysgu ac addysgu a sbarduno cynnydd ysgolion yn y categorïau oren a choch.
- Cyflwyno strategaeth ranbarthol ac Arlwy Dysgu Proffesiynol sy'n canolbwyntio ar wella lles disgyblion a sbarduno eu deilliannau, yn enwedig y rhai sy'n dioddef tlodi
- Cyflwyno strategaeth ranbarthol ac Arlwy Dysgu Proffesiynol (gan gynnwys Datblygiad Llywodraethwyr) i wella gallu ac ansawdd dysgu ac arweinyddiaeth dros y rhanbarth
- Mireinio'r Strategaeth Ranbarthol ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar y cyd â phartneriaid allweddol i sbarduno deilliannau ym mhob cyfnod allweddol
- Arwain, cefnogi a herio ysgolion yn briodol er mwyn gweithredu cynllun Dyfodol Llwyddiannus a'r newidiadau i fanylebau TGAU pynciau nad yw'n rhai craidd
- Rhesyddu'r Model Rhanbarthol ar gyfer darparu'r System Hunan-Wella
- Gwella cysondeb o ran safon gwerthuso gweithgareddau gwella ysgolion drwy'r gwasanaeth a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth

Pwy yw'r unigolion allweddol yn y GCA?

Mae strwythurau staffio llawn ar gael ar wefan y GCA. Mae'r Uwch Dim Rheoli i'w gweld isod:



Ein gwethoedd craidd

Mae ein gwerthoedd craidd yn gyrru pob dim rydyn ni'n ei wneud o ran ein harfer o ddydd i ddydd gyda'n partneriaid allweddol, y gymuned addysg ehangach a'n cyflogwyr.

Ein gwerthoedd craidd yw:

Rhagoriaeth	Rydym yn anelu am ragoriaeth o ran dysgu, addysgu, arwain, a phob dim rydyn ni'n ei wneud.
Arloesi	Rydym yn wynebu her newid radicalaidd gyda dewrder, rheswm ac optimistiaeth.
Hygrydedd	Rydym yn honest ac yn dryloyw bob amser ac er budd pob dysgwr dros ein rhanbarth.
Cydweithio	Rydym yn gweithio mewn partneriaethau fel ein bod yn gallu gwneud gwahaniaeth mwy gyda'n gilydd.
Cyfrifoldeb	Rydym yn cymryd cyfrifoldeb dros ansawdd ein gwasanaeth a deilliannau ein dysgwyr.

Sut i gael gwybodaeth defnyddiol bellach

Rydym yn awyddus i rannu cymaint â phosib o wybodaeth gydag aelodau etholedig.

Rydym yn cynnig adroddiadau rheolaidd i bwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol ac yn gallu trefnu briffio aelodau gyda swyddogion yr awdurdodau lleol ar bynciau perthnasol.

Mae modd cael gafael ar wybodaeth bellach:

- ar ein gwefan:  www.sewales.org.uk
- ar ein cyfrif Trydar:  www.twitter.com/sewalesEAS
- ar ein dudalen Facebook:  www.facebook.com/sewalesEAS

Gallwch gysylltu â ni hefyd drwy:

- Ffôn: 01633 415470 (Casnewydd) - 01443 864963 (Tredomen)
- Ebost: business.support@sewaleseas.org.uk

Os ydych chi'n Lywodraethwr Ysgol gallwch gael gwybodaeth o'n Gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr yn <https://sewales.org.uk/Governor-Support-Development.aspx>.

Rydym hefyd yn cynnig bwletin wythnosol i'n holl ysgolion. Gall aelodau etholedig danysgrifo i dderbyn y bwletin hwn drwy ebostio business.support@sewaleseas.org.uk gan rhoi 'tanysgrifo i'r bwletin' yn y llinell pwnc.